

Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

Y Cynghorydd H Griffiths

Ward: Cwm Garw

Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2025**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

Gweithgareddau Etholaethol

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym Mai 2022. Cefais yr anrhydedd o gael fy ethol yn Faer BCBC am y flwyddyn 24/25 yn ogystal â chael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion.

Rwyf wedi codi 46 o adroddiadau/atgyfeiriadau.

Mynychais apwyntiadau fel Maer 94 gwaith.

Fe wnes i hefyd fynychu 38 o gyfarfodydd fel llywodraethwr ysgol, cysylltu â chlybiau chwaraeon gyda throsglwyddiadau CAT ac ati.

Dydw i ddim yn recordio galwadau ffôn neu negeseuon e-bost ond rhyngddynt mae'n rhaid bod dros gant.

Rwy'n cynnal Bore Coffi bob dydd Gwener lle mae croeso i bawb alw heibio am sgwrs neu godi mater sy'n rhoi pryderon iddynt. Mae'r Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn galw heibio'n rheolaidd i roi gwybod i ni am y newyddion diweddaraf

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Croesawais hefyd sawl ysgol i'r Siambr gan ei fod yn rhan o'u cwricwlwm i ddysgu am yr hyn sy'n digwydd yn eu cymuned. Roedd yn bleserus iawn ond roedd yn teimlo fel Mastermind ar adegau.

Fel rhan o fy rôl fel Maer, codais dros £3,000 a rannwyd yn gyfartal rhwng SCUBU yn POW ac Ysbyty Felindre.

Wrth ganfasio codwyd nifer o bryderon am gyflwr Parc Bandstand ym Mlaengarw, ar y cyd â Chyngor Cymuned Cwm Garw mae'r parc cyfan wedi'i adfywio.

Hefyd bydd cynllun arall o waith yn mynd rhagddo pan fydd Victoria St/King Edward Street yn cael eu hailosod.

Hefyd erbyn diwedd yr Haf bydd pob parc chwarae yn Nyffryn Garw wedi cael ei wella i fodloni Safonau Diogelwch.

Y Cynghorydd H Griffiths:

Dyddiad: 13 Gorffennaf 2025